Rhif: WG40800

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Canllawiau ar y Ddeddf Teithio Llesol

Mehefin 2021

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN digidol 978-1-80195-497-6

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Cafodd y Canllawiau Darparu a'r Canllawiau Dylunio ar gyfer y Ddeddf Teithio Llesol eu cyhoeddi'n wreiddiol yn 2014 mewn dogfennau ar wahân.<br><br>Cafodd dogfen newydd yn cyfuno'r ddwy set wahanol o ganllawiau, ac a oedd yn cynnwys diwygiadau yn sgil newidiadau i reoliadau, ei chyhoeddi ar ffurf ddrafft ym mis Chwefror 2020 at ddibenion ymgynghori. Wrth inni lunio'r ddogfen honno, manteisiwyd ar yr adborth helaeth a gyflwynwyd gan randdeiliaid am y canllawiau gwreiddiol.<br><br>Mae'r ddogfen ymgynghori a'r canllawiau drafft i'w gweld yma: https://llyw.cymru/canllawiau-teithio-llesol<br><br>Cynhaliwyd tri digwyddiad ymgynghori ym mis Chwefror a mis Mawrth 2020; un yng Nghaerfyrddin a dau ar-lein (oherwydd cyfyngiadau Covid-19).<br><br>Cafodd yr ymgynghoriad ei hyrwyddo'n eang drwy'r Bwrdd Teithio Llesol, cymdeithasau proffesiynol, cyrff yn y sector cyhoeddus, rhanddeiliaid yn y sector gwirfoddol, ac ar wefan a sianelau cyfryngau cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Tynnwyd sylw at yr ymgynghoriad hefyd drwy banel Mynediad a Chynhwysiant Trafnidiaeth Cymru. Oherwydd mai llawlyfr technegol ar gyfer asiantaethau sy'n darparu seilwaith teithio llesol yw'r canllawiau yn bennaf, ystyriwyd nad oedd yn berthnasol targedu plant a phobl ifanc yn uniongyrchol.<br><br>Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 19 Mehefin 2020.<br><br>Mae'r ddogfen hon yn crynhoi prif bwyntiau'r ymgynghoriad. Pan gyhoeddir y Canllawiau terfynol, bydd crynodeb o'r newidiadau yn cael ei gyhoeddi ar y cyd â nhw. |
| **Ymholiadau** | Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso ichi gysylltu â ni: activetravel@llyw.cymru |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.** |

**Pam mae Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol yn cael eu diweddaru?**

Mae’r awdurdodau lleol ac eraill sy'n cynllunio ac yn dylunio llwybrau a chyfleusterau teithio llesol, ac sy’n cyflawni'r dyletswyddau ehangach a osodir ar awdurdodau lleol gan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, wedi bod yn defnyddio’r Canllawiau presennol ers nifer o flynyddoedd. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru weithdai gyda defnyddwyr y canllawiau er mwyn gofyn am eu hadborth, ac mae am wella'r canllawiau, gan fanteisio ar brofiadau’r defnyddwyr hynny. Ers i’r Canllawiau presennol gael eu cyhoeddi, gwelwyd nifer o newidiadau rheoleiddiol hefyd sy'n berthnasol i’r ffordd y dylunnir seilwaith teithio llesol, ac adlewyrchir y newidiadau hynny yn y canllawiau diwygiedig, e.e. newidiadau i'r Rheoliadau a’r Cyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig.

**Diben yr ymgynghoriad**

Dyma’r prif newidiadau yr ymgynghorwyd yn eu cylch:

**Rhan 1 – Darparu**

- Adlewyrchu newidiadau yn y gyfraith ac mewn polisïau
- Tynnu sylw at y berthynas rhwng y Canllawiau a swyddogaethau gwahanol sydd gan yr awdurdodau lleol
- Cyflwyno Mapiau Rhwydweithiau Teithio Llesol, sy'n dod â’r Mapiau Llwybrau Presennol a’r Mapiau Rhwydweithiau Integredig ynghyd
- Mwy o eglurder ar fapio llwybrau teithio llesol y tu allan i ardaloedd dynodedig
- Mwy o eglurder am y disgwyliadau o ran ymgynghori ac ymgysylltu
- Pwyslais cliriach ar yr amcan o newid dulliau teithio, gan hyrwyddo teithio mewn ffyrdd llesol yn lle teithio mewn ceir

**Rhan 2 – Cynllunio a Dylunio**

- Ehangu'r bennod ar ymgynghori ac ymgysylltu
- Newidiadau i’r elfennau dylunio ar ôl i’r Rheoliadau a’r Cyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig gael eu diwygio, a defnyddio arferion gorau newydd
- Newidiadau i faint y llifau beiciau sy'n gysylltiedig â gofynion lled ar gyfer traciau beicio

Gofynnwyd i ymgyngoreion ateb cyfres o gwestiynau safonedig er mwyn inni gael eu hadborth am y prif feysydd yn y Canllawiau a oedd wedi cael eu diwygio.

## Yr ymatebion a ddaeth i law

Cafwyd cyfanswm o **64** o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad. O blith y rheini, daeth 22 oddi wrth sefydliadau yn y sector cyhoeddus, 3 oddi wrth sefydliadau yn y sector preifat, 7 oddi wrth sefydliadau yn y trydydd sector, 9 oddi wrth fudiadau gwirfoddol a 22 oddi wrth unigolion.

Ymatebodd 1 ymgynghorai yn Gymraeg; ymatebodd 63 yn Saesneg.

Mae Atodiad 1 yn rhoi rhestr o’r ymgyngoreion, ac eithrio'r rheini a oedd am i’w manylion gael eu cadw'n ddienw.

Cynhaliwyd tri digwyddiad ymgynghori ym mis Chwefror a mis Mawrth 2020: cynhaliwyd un wyneb yn wyneb a chynhaliwyd y ddau arall ar-lein gan ddefnyddio Microsoft Teams.

Cyflwynodd nifer o sefydliadau ymatebion manwl yn ogystal ag atebion i gwestiynau'r ymgynghoriad:

Dinas Feicio Caerdydd
Ymgyrch Feicio Caerdydd
Cyngor Sir Caerfyrddin
Cyngor Sir Ceredigion
Cycling UK
Y Cerddwyr
Sustrans
Weelwrights

## Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, fesul cwestiwn

**C1:** Mae'r canllawiau diwygiedig yn ceisio dileu unrhyw beth sydd wedi'i ddyblygu yn ddiangen, ac ailfformatio'r canllawiau i un canllaw yn lle canllaw mewn dwy ran ar wahân.

A yw'r ddogfen yn gweithio'n well erbyn hyn fel un set o ganllawiau gyda statws gyfartal ar gyfer elfennau technegol a darparu?

Cytuno : 33
Anghytuno : 8
Dim sylw : 21

**Crynodeb o'r ymatebion**

Mae'r mwyafrif yn cytuno bod y ddogfen gyfun yn un fwy cydlynol a'i bod yn rhoi statws cyfartal i'r elfennau darparu ac i'r elfennau dylunio a geir yn y canllawiau.

Dywedodd sawl ymatebydd fod y ddogfen yn frawychus o hir ac y gallai hynny fod yn rhwystr i gynulleidfaoedd technegol sy'n chwilio am rywbeth penodol, a hefyd i gynulleidfaoedd nad ydynt yn troi ati am resymau technegol. Galwodd eraill am fersiwn hawdd ei darllen sy'n addas ar gyfer pobl ag anableddau. Awgrymwyd y gellid cyflwyno'r ddogfen ar ffurf electronig er mwyn ei gwneud yn haws ei chwilio. Tynnodd sawl ymatebydd sylw at wallau teipograffyddol, anghysondebau yn y cynllun, camgymeriadau sillafu, a delweddau gwael o ran eu heglurder.

Teimlai rhai fod rhywfaint o ddyblygu yn y canllawiauo hyd, yn enwedig y ddwy bennod sy'n ymdrin ag ymgysylltu ac ymgynghori.

**C2:** Mae'r canllawiau diwygiedig yn ceisio rhoi mwy o bwyslais ar ddyletswyddau'r Ddeddf sy'n ymwneud yn benodol â sicrhau newid moddol o ran dewis beicio a cherdded fel ffyrdd o deithio.

A yw hyn wedi'i gyflawni, ac os nad yw, beth hoffech chi ei weld yn cael ei ychwanegu i helpu i weithredu'r nod trosfwaol hwn?

Cytuno : 20
Anghytuno : 12
Dim sylw : 21

**Crynodeb o'r ymatebion**

Mae cyfran yr ymgyngoreion nad atebodd y cwestiwn hwn yn awgrymu nad oedd y datganiad yn y cwestiwn o reidrwydd yn glir, neu nad yw'n flaenoriaeth i bobl.

Thema gref a gododd yn y sylwadau oedd bod rhoi rhagor o bwyslais ar ymyriadau i newid ymddygiad, ar ymgyrchoedd hyrwyddo, a chysylltiadau â meysydd polisi eraill, yn hanfodol er mwyn annog pobl i newid eu dulliau teithio i ddulliau teithio llesol. Dywedodd sawl un nad oes digon o gefnogaeth a dealltwriaeth ymhlith uwch-arweinwyr ym maes llywodraeth leol a llywodraeth genedlaethol i sicrhau’r newid hwnnw, a’u bod o’r farn na fyddai'r Canllawiau'n gwneud unrhyw wahaniaeth pe na bai’r gefnogaeth honno ar gael. Awgrymodd nifer fod angen hyfforddiant ar draws timau amlddisgyblaethol.

**C3:** Ydych chi’n cytuno â’r bwriad o ddangos y Map Llwybrau Cyfredol a’r Map Rhwydwaith Integredig gyda’i gilydd fel Map Rhwydwaith Teithio Llesol mewn cylchredau mapio yn y dyfodol?

Cytuno : 35
Anghytuno : 4
Cytuno o bosibl : 4
Sylwadau ond heb fod yn cytuno nac yn anghytuno : 8
Heb ateb : 13

Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymgyngoreion yn cytuno â'r cynnig i gyfuno'r Map Llwybrau Presennol a’r Map Rhwydweithiau Integredig i greu un Map Rhwydwaith Teithio Llesol a fydd yn dangos y llwybrau presennol a llwybrau’r dyfodol gyda’i gilydd.

Cafwyd sawl sylw ynglŷn â pha mor bwysig yw medru gwahaniaethu'n glir rhwng y llwybrau presennol a llwybrau y dymunir eu creu, ac y dylai fersiynau o'r mapiau hyn ar gyfer y cyhoedd gael eu fformatio'n wahanol i'r cofnod ffurfiol o lwybrau sy’n cael ei gadw gan yr awdurdodau lleol. Codwyd pryderon ynghylch a fyddai pobl ag anableddau ar eu golwg yn gallu defnyddio’r mapiau.

Roedd y rheini a oedd yn erbyn yr awgrym yn poeni y gallai gormod o wybodaeth ar y map olygu y byddai’n ddryslyd i'r cyhoedd. Roedd un ymgynghorai o'r farn bod y ffocws ar fapiau yn tynnu sylw oddi ar weithgareddau hyrwyddo dwys a bod mwy o’u hangen nhw. Dywedodd rhai o’r ymgyngoreion nad yw'n briodol cyfuno gwybodaeth am gerdded a beicio ar y mapiau hyn ac y dylid mynd ati i ystyried sut i gyflwyno'r rhwydwaith cerdded yn well.

**C4:** Mae cyd-destun y polisi wedi’i ddiweddaru er mwyn adlewyrchu deddfau a rheoliadau newydd. Mae hyn yn cynnwys esboniad o’r cysylltiadau rhwng Polisi Cynllunio Cymru 10 a Theithio Llesol, a hefyd sut mae teithio llesol yn cyd-fynd â’r egwyddorion a’r dull gweithredu a nodir yn Neddf Lles Cenedlaethau’r Dyfodol.
A oes yna unrhyw gysylltiadau maes polisi eraill y dylid tynnu sylw atynt, ac os felly pa wybodaeth amdanynt yr hoffech ei gweld yn cael ei chynnwys yn y canllawiau?

Dim sylw = 24
Wedi gwneud sylw = 40

Gwnaeth ymgyngoreion yr awgrymiadau a ganlyn ynghylch lle y dylid cryfhau’r cysylltiadau rhwng y Canllawiau Teithio Llesol a meysydd polisi eraill:

- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) – cyfeirir at adran 6, ond dylid gwella cysylltiadau eraill rhwng y ddau faes polisi. Yn ogystal, er bod y Canllawiau Teithio Llesol yn cyfeirio at Ddeddf yr Amgylchedd yn y bennod ar bolisi, ni ddatblygir mwy ar hynny yn adrannau ymarferol y Canllawiau i ddangos sut y dylid gwneud hynny
- Rhagor o ddiweddariadau i adlewyrchu rheoliadau diweddar ar Ddraenio Trefol Cynaliadwy
- Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017
- Cysylltu teithio llesol â'r ddyletswydd sydd ar fin cael ei rhoi ar gyrff cyhoeddus i gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd o dan amgylchiadau penodedig
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a'i fframwaith canlyniadau cenedlaethol
- Dylai Strategaeth Drafnidiaeth ddiwygiedig Cymru ysgogi newid at deithio cynaliadwy a llesol. Felly, dylai’r Canllawiau Teithio Llesol a pholisïau eraill ar drafnidiaeth, e.e. y Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd a’r Mesur Teithio gan Ddysgwyr lifo o Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ac ni ddylid eu hailgyhoeddi tan i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru gael ei chwblhau
- Nid yw canllawiau trafnidiaeth yn cyfeirio digon at deithio llesol – gan gynnwys WelTAG (Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru)
- Polisi Llygredd Aer. Ni ddylai llwybrau Teithio Llesol fynd drwy ardaloedd lle mae llawer o lygredd
- Cysylltiadau cryfach â pholisi Addysg ac yn enwedig Ysgolion yr 21ain Ganrif/Moderneiddio Addysg
- Gwell cysylltiadau â chynlluniau rheoli ansawdd aer lleol
- Gweithredu ar Anabledd : Hawl i Fyw'n Annibynnol
- Gwell integreiddio â Chynlluniau Gwella Llwybrau Tramwy
- Defnyddio cynlluniau trwyddedau Gwaith Stryd

**C5:** Erbyn hyn, mae’r canllawiau yn nodi’n gliriach bod dyletswyddau’r ddeddf yn gyfrifoldeb ar yr awdurdod lleol cyfan, ac mae’n rhestru adrannau sy’n arbennig o berthnasol i rai swyddogaethau. A oes rhagor o feysydd y dylid tynnu sylw atynt?

Dywedodd 7 o’r ymgyngoreion nad oedd ganddynt farn
Gadawodd 21 y cwestiwn hwn yn wag
Gwnaed 36 o sylwadau.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymgyngoreion yn croesawu'r rhestr gliriach o gyfrifoldebau ar draws swyddogaethau awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Hyd nes y cymerir camau cliriach ar draws Llywodraeth Cymru i ddangos arweiniad ar Deithio Llesol, dywedodd rhai o’r ymgyngoreion nad oedd yn realistig disgwyl unrhyw newid ar lefel llywodraeth leol.

Yng nghyd-destun galluogi llywodraethu lleol mwy effeithiol, nododd mwy nag un ymgynghorai y byddai ymgysylltu’n well â phobl ag anableddau corfforol ac anableddau dysgu yn helpu i gyflawni hynny.

Dyma rai o’r pwyntiau eraill a wnaed gan yr ymgyngoreion:

- Dylai fod gan ardaloedd y Dinasoedd-ranbarthau/y Bargeinion Dinesig gyfrifoldebau penodol
- Mae angen gwell cydweithio rhwng yr awdurdodau lleol a rhwng yr awdurdodau a Llywodraeth Cymru
- Dylai fod gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus rôl o ran craffu ar gynlluniau Teithio Llesol, o safbwynt amlddisgyblaethol
- Dywedwyd mewn mwy nag un ymateb fod angen arweinyddiaeth gorfforaethol gan yr awdurdodau lleol, ac na fyddwn yn gweld unrhyw gynnydd tra bydd Teithio Llesol yn parhau'n gyfrifoldeb i adrannau priffyrdd. Ystyrir o hyd bod y Canllawiau Teithio Llesol yn cael eu hanelu at adrannau Priffyrdd ac o'r herwydd, nid ydynt yn cael dylanwad
- Dylai'r tabl cyfrifoldebau hefyd gynnwys dylunio cynhwysol yn un o gyfrifoldebau adrannau Cynllunio a Datblygu
- Dywedwyd mewn mwy nag un ymateb fod angen i agweddau at deithio llesol newid ar draws adrannau awdurdodau lleol os ydym am weld cynnydd
- Byddai'n fuddiol rhoi rôl i CLILC hyrwyddo'r neges ar draws is-adrannau awdurdodau lleol, a byddai cyfeirio at rôl Trafnidiaeth Cymru o fudd hefyd.

**C6:** Mae'r cydsyniad o ddwysedd rhwyll ar gyfer y rhwydwaith llwybrau teithio llesol wedi'i gyflwyno gyda'r bwriad o gyflawni rhwyll o 250m erbyn y trydydd tro i'r mapiau gael eu diweddaru.

A yw hyn yn egluro'r amwysedd blaenorol ynghylch beth yw rhwydwaith teithio llesol?

Ydy = 10
Nac ydy = 5
Efallai = 18
Heb ateb = 18
Dim barn = 13

Roedd y cwestiwn hwn yn rhagdybio lefel o wybodaeth a dealltwriaeth am yr agweddau technegol ar y canllawiau Teithio Llesol ac efallai fod hynny'n egluro pam nad oedd gan bron hanner yr ymatebwyr farn, neu pam na gafwyd unrhyw ateb o gwbl.

O'r 5 a oedd o'r farn nad yw dwysedd y rhwydwaith yn derm defnyddiol wrth ddiffinio beth yw rhwydwaith teithio llesol, roedd y pryderon yn amrywio o feddwl bod y cysyniad yn rhy gymhleth, i bryder na fyddai rhai mathau o dopograffeg, e.e. trefi'r Cymoedd, yn addas. Roedd un ymatebydd yn pryderu nad yw cynnwys parthau 20mya mewn rhwydweithiau teithio llesol yn dderbyniol. Roedd un arall yn pryderu y gallai arwain at ychwanegu llwybrau diangen na wneir fawr o ddefnydd ohonynt.

Gwnaed y pwyntiau a ganlyn gan y rheini a atebodd 'efallai' neu 'ydy':

- Dadleuai sawl un y dylai dwysedd y rhwydwaith fod yn wahanol ar gyfer cerdded a beicio
- Mae dwysedd y rhwydwaith yn llai pwysig na dilyniant o lwybrau
- Er eu bod yn croesawu'r syniad ar gyfer ardaloedd trefol, dadleuai nifer o bobl na fyddai cyrion trefol a threfi bach yn addas ar gyfer y lefel hon o ddwysedd, yn enwedig pan fo strydoedd cul neu dopograffeg y cymoedd yn cyfyngu ar opsiynau
- Awgrymwyd y dylai'r Canllawiau gynnwys enghreifftiau o astudiaethau achos am yr hyn a olygir wrth ddwysedd rhwydwaith o 250m mewn lleoliadau trefol gwahanol

- Roedd angen diweddaru adrannau eraill o'r canllawiau er mwyn cyfeirio at y cysyniad ac at ba mor ymarferol y byddai i'w wireddu
- Pryder am amwysedd gan fod y canllawiau yn dweud mewn mannau eraill y gallai awdurdodau ganolbwyntio ar wasanaethu meysydd allweddol, e.e. ysgolion, a fyddai'n awgrymu nad yw dwysedd ar draws y rhwydwaith yn uchelgais ddifrifol
- Awgrymodd sawl ymatebydd y dylai'r system GIS ar gyfer Mapiau Rhwydweithiau Teithio Llesol ddigidol gynnwys offeryn a fyddai'n galluogi asesiad o ddwysedd y rhwydwaith.

**C7:** Os yw eich rôl yn cynnwys cyflawni dyletswyddau statudol o dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, a yw'r canllawiau diwygiedig hyn yn rhoi mwy o eglurder i chi ynglŷn â sut mae gwneud hynny? Os nad ydynt, beth arall hoffech ei weld yn cael ei gynnwys?

Ydynt = 9
Nac ydynt = 4
Efallai = 5
Heb ateb = 20
Dim barn = 26

Ni chafodd y cwestiwn hwn ei ateb gan fwyafrif llethol yr ymatebwyr, ac nid yw llawer ohonynt mewn swyddi lle maent yn gyfrifol am gyflawni dyletswyddau statudol.

O'r rheini a gyflwynodd sylwadau, gwnaed yr awgrymiadau a ganlyn:

- Mae cynllunio rhwydweithiau yn broses raddol sy'n digwydd fesul cam ac mae angen i'r adrannau ar gynllunio rhwydweithiau roi cyngor mwy clir am y ffordd o weithredu fesul cam sy'n cael ei hargymell
- Pryder bod y cyfrifoldebau ymgynghori yn rhy feichus i awdurdodau lleol ac nad oes modd eu cyflawni heb ddigon o adnoddau ychwanegol
- Awgrymodd nifer o bobl y dylid symleiddio'r canllawiau i'w gwneud yn haws eu deall ac felly'n fwy tebygol o gael eu dilyn
- Er bod y dyletswyddau Teithio Llesol yn glir, dywedodd rhai o'r ymatebwyr nad yw dyletswyddau eraill sy'n gysylltiedig â Deddf yr Amgylchedd a sut y mae'n berthnasol i deithio llesol, yn ddigon clir
- Gwnaed ceisiadau am enghreifftiau ymarferol o sut y gall adrannau ym maes llywodraeth leol nad ydynt yn canolbwyntio ar drafnidiaeth gydymffurfio â dyletswyddau'r ddeddf
- Soniwyd bod angen eglurder manylach ar sut i fesur faint sy'n mynd ati i deithio mewn ffordd llesol, er mwyn mesur a yw ymyriadau'n effeithiol ai peidio
- Tynnodd sawl ymatebydd sylw at rai o'r termau yn y ddogfen, gan awgrymu eu bod yn gwanhau'r canllawiau, e.e. "dylai" yn hytrach na "rhaid".

**C8:** Nodwch unrhyw bwyntiau eraill yr hoffech eu gwneud mewn perthynas â'r Rhan 1 ddiwygiedig: Darparu.

Wedi gwneud sylw = 37
Dweud nad oedd ganddynt unrhyw sylw = 4
Gadawyd yn wag = 23

Dyma rai o'r pwyntiau a wnaed mewn ymateb i'r cwestiwn hwn:

- Rhagor o bwyslais ar gerdded a newid dulliau teithio
- Cryfhau'r adrannau ar sut mae teithio llesol yn cyd-fynd â pholisi iechyd

- Cynnwys manylion am arferion da ar gyfer prosiectau newid ymddygiad ac am ymyriadau sy’n cael eu hariannu â chyllid refeniw, yn enwedig mewn perthynas ag ysgolion a theithio i'r ysgol
- Dileu amodau sy'n gysylltiedig ag aneddiadau llai a rhwydweithiau gwledig
- Rhoi cymorth a chyngor ychwanegol ar Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb a hyfforddiant parhaus i amrywiaeth o bobl sy’n defnyddio’r canllawiau (cynllunwyr/swyddogion priffyrdd/etc.)

**C9:** Mae manylion dylunio penodol wedi’u darparu er mwyn alinio â Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2016 sydd wedi’u diweddaru.

A ydych chi’n hyderus yng nghysondeb y dull sy’n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwahanol ganllawiau, er enghraifft ynglŷn â delio â chyffyrdd neu wrth drin rhyngwynebau ffyrdd ymyl â llwybrau teithio llesol?

Ydw = 10
Nac ydw = 12
Efallai = 3
Heb ateb = 21
Dim barn = 18

Ni chafodd y cwestiwn hwn ei ateb gan fwyafrif llethol yr ymatebwyr.

O blith y rheini a ymatebodd, roedd eu sylwadau’n cynnwys:

- Bod angen diweddaru’r Canllawiau Teithio Llesol yn rheolaidd pan gaiff diwygiadau eu gwneud i’r Rheoliadau a’r Cyfarwyddydau Cyffredinol Arwyddion Traffig a hefyd pan gaiff Cod y Ffordd Fawr ei diweddaru
- Cais am fanylion dylunio ychwanegol ar fesurau blaenoriaeth ar gyffyrdd ffyrdd ochr, defnyddio cymdogaethau traffig isel, a ffyrdd arloesol o ddylunio cylchfannau
- Pryder y bydd diwylliant dylunio priffyrdd yng Nghymru yn parhau i ffafrio modurwyr yn hytrach na cherddwyr a beicwyr
- Awgrym y gallai darparu rhai mesurau ffisegol i arafu cerbydau ar ffyrdd arwain at fwy o lygredd ac at wneud teithiau beicio yn anghyfforddus ac yn anghyfleus
- Pryder bod dehongli goddrychol yn parhau’n gyffredin, yn enwedig mewn perthynas â defnyddio palmentydd botymog, er enghraifft
- Oni bai bod y system gynllunio yn mynd ati mewn ffordd dynnach i hyrwyddo pwysigrwydd teithio llesol, y farn oedd mai ychydig o effaith a geir

**C10:** Mae’r lled sy’n ofynnol ar gyfer llwybrau beiciau ar gyfer gwahanol fandiau llif beiciau wedi’i addasu, a allai leihau’r gofyniad lled ar gyfer rhannau o’r rhwydwaith gan ragweld defnydd cymedrol. (DE021, DE023)

Ydych chi’n credu bod y cydbwysedd yn gywir rhwng caniatáu creu rhagor o lwybrau a chysur a diogelwch pob defnyddiwr?

Ydw = 22
Nac ydw = 10
Dim sylw = 6
Heb ateb = 26

Unwaith eto, nid atebodd nifer mawr o’r ymgyngoreion y cwestiwn hwn, neu nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau i'w cyflwyno.

Cyfeiriodd y rheini sydd o'r farn nad yw'r newid hwn yn syniad da at bryderon am effaith llwybrau cyd-ddefnyddio ar ddefnyddwyr anabl. Awgrymodd rhai y dylid defnyddio mwy ar ddarpariaethau amgen i gadw lonydd beicio ar y briffordd pryd bynnag y bo modd, gan osgoi traciau cyd-ddefnydd. Dywedodd eraill fod angen cryfhau'r adrannau yn y canllawiau sy'n nodi y dylid cynnig darpariaeth amgen i gerddwyr a beicwyr er mwyn osgoi gwrthdaro rhwng defnyddwyr. Dywedwyd hefyd fod ymgorffori seilwaith gwyrdd ychwanegol a draenio cynaliadwy yn rheswm dros beidio â chulhau llwybrau.

**C11:** Mewn perthynas ag elfennau dylunio, a oes yna unrhyw nodweddion dylunio sydd heb eu cynnwys sydd, yn eich barn chi, yn hanfodol ar gyfer helpu i ddarparu cynlluniau o ansawdd uchel?

Wedi ymateb = 35
Wedi dweud nad oedd ganddynt unrhyw sylw = 10
Heb ateb = 19

Gwnaed yr awgrymiadau a ganlyn:

- Defnyddio cyrbau onglog ar draciau beicio
- Rhagor o fanylion am ddraenio trefol cynaliadwy a mesurau lliniaru amgylcheddol eraill
- Awgrym ynglŷn â chydweithio i ddatblygu a threialu atebion pwrpasol ar gyfer cynlluniau anodd, er mwyn rhannu arferion da a datblygu'r hyder i ddefnyddio atebion arloesol
- Manylion dylunio ychwanegol ar gyfer cyffyrdd a chroesfannau yn gyffredinol, ac yn benodol ar gyfer dyluniad cyffyrdd ar lwybrau beicio dwy ffordd, a mannau lle mae traciau un ffordd yn newid yn draciau beicio dwyffordd
- Rhagor o enghreifftiau o gynlluniau ar gyfer llwybrau cyd-ddefnyddio, gan dderbyn mai'r rhain fydd yr ateb gorau o hyd mewn ardaloedd lle nad oes poblogaeth fawr
- Rhagor o fanylion dylunio i'w hychwanegu unwaith y bydd adolygiad Llywodraeth y DU o God y Ffordd Fawr wedi'i gwblhau (fel y bo'n briodol)
- Goleuadau hidlo traffig sy'n rhoi blaenoriaeth i gerddwyr a beicwyr, a chynnwys canllawiau ar raglennu goleuadau traffig i darfu ar lif traffig priffyrdd sy'n mynd yn gynt na'r cyflymder a ganiateir

**C12:** Ar lefel cynlluniau unigol, bwriad y gofyniad penodol i gynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn ystod y camau cynnar yw sicrhau bod ymgysylltiad llawn â'r holl ddefnyddwyr yn llywio dyluniad y cynllun.

Pa mor hyderus ydych chi y bydd y broses hon yn gwella ansawdd cynlluniau ac yn lleihau unrhyw wrthdaro posibl rhwng defnyddwyr sydd â gwahanol ofynion mynediad?

Hyderus = 26
Diffyg hyder = 15
Dim sylw i'w wneud = 7
Heb ateb = 16

Roedd cytundeb cyffredinol bod angen cryfhau'r canllawiau yn y maes hwn. O ran a fydd y broses benodedig ar gyfer cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn gwneud

gwahaniaeth o ran gwella ansawdd cynlluniau a lleihau gwrthdaro rhwng defnyddwyr, daeth y sylwadau a ganlyn i law:

- Rhaid i'r broses o gynnal Asesiadau o'r Effaith at Gydraddoldeb beidio â bod yn rhy gyffredinol a cholli golwg ar anghenion dilys penodol yn lleol
- Nid oes un ateb sy'n addas i bawb – gall canolbwyntio ar yr Asesiad ffurfiol o'r Effaith at Gydraddoldeb ddisodli gwaith ystyrlon a chynnar i ymgysylltu â grwpiau sy'n cynrychioli pobl â nodweddion gwarchodedig, a byddai hynny'n gamgymeriad
- Pryder y bydd y gofyniad cyffredinol yn arafu'r broses o gyflwyno gwelliannau hawdd posibl o ran Teithio Llesol a gofynnwyd felly am ganllawiau ychwanegol ysgafnach ar gyfer cynlluniau ar raddfa fach

Gwnaed y pwyntiau eraill isod:

- Awgrym bod Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd, yn ogystal ag Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, yn ffordd o ymgysylltu â defnyddwyr i ddylanwadu ar ddyluniad cynlluniau
- Mwy o gymorth i'w roi i ALlau ar sut i gynnal Asesiadau ystyrlon o'r Effaith ar Gydraddoldeb yng nghyd-destun Teithio Llesol. Gwelwyd bod Atodiad J ar goll o'r ddogfen ymgynghori.
- Bydd defnyddio Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb i hyrwyddo Teithio Llesol yn helpu i annog amrywiaeth ehangach o bobl i wneud hynny

| |
|---|
| **C13:** Mae Pennod 11 sy'n ymwneud â Monitro wedi'i hehangu i gynnwys canllawiau mwy penodol, ac mae'n cynnwys templed. A yw hyn yn darparu digon o eglurder?<br><br>Ydy / efallai = 25<br>Nac ydy = 8<br>Heb ateb/dim sylw = 31 |

Dyma rai o'r sylwadau a ddaeth i law mewn ymateb i'r cwestiwn hwn:

- O ran monitro teithio i'r ysgol uwchradd, argymhellwyd bod yr arolwg iechyd a lles a gynhelir bob dwy flynedd gan y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion yn cael ei gynnwys fel un o'r adnoddau y dylai'r ALlau ei ddefnyddio
- Gofynnwyd am gynnwys ychwanegol ar werthuso a dadansoddi data
- Galw am ddileu'r ailadrodd ym mhennod 20 a gwell eglurder o ran canlyniadau ac effeithiau
- Cyfeiriad mwy penodol at sut y dylai'r ALlau ddefnyddio'r ffynonellau data sydd ar gael am deithio llesol
- Yr angen i ddarparu enghreifftiau sy'n rhoi atebion gam wrth gam, a ffyrdd ychwanegol o roi arweiniad i'r ALlau ar sut i fonitro a gwerthuso ymgysylltiad, cyd-lunio a mwy o symudedd
- Ystyried darparu templed ar gyfer arolygon a gynhelir ymhlith defnyddwyr llwybrau, a'i gynnwys ar ffurf atodiad
- Ystyried ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddatblygu eu targedau eu hunain ar gyfer newid dulliau teithio

| |
|---|
| **C14:** Nodwch unrhyw bwyntiau eraill yr hoffech eu gwneud mewn perthynas â Rhan 2: Cynllunio a Dylunio.<br><br>Darparwyd sylw = 23<br>Dim sylw i'w wneud = 11 |

Gadawyd yn wag = 30

Cyflwynodd nifer o’r ymgyngoreion sylwadau manwl iawn a oedd, i raddau helaeth, yn rhai technegol eu natur. Pan fydd Llywodraeth Cymru yn mynd ati i gwblhau’r canllawiau, bydd cynnwys rhestr o'r newidiadau a fydd wedi'u gwneud o ganlyniad i’r sylwadau sydd wedi dod i law.

**Cwestiwn A**: Mae dyletswydd arnom i ystyried effeithiau ein polisïau ar yr iaith Gymraeg, o dan ofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai canllawiau Teithio Llesol yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

Pa effeithiau allai fod, yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

Dim ymateb = 40
Darparwyd ymateb = 24

Roedd nifer o'r rheini a gyflwynodd sylwadau o'r farn bod cryn botensial i arwyddion teithio llesol, mapiau, arwyddion dynodi llwybrau, byrddau dehongli etc. wneud cyfraniad cadarnhaol at wireddu Cymraeg 2050. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys defnyddio teithio llesol i dreialu arwyddion enwau lleoedd a gwasanaethau digidol uniaith (Cymraeg yn unig) e.e. Ap i roi gwybod am broblemau gyda llwybrau. Gallai'r rhain fod yn ffyrdd blaengar o alluogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg am resymau bob dydd, a byddent o fewn cyrraedd hawdd i ddysgwyr Cymraeg.

Oherwydd cymhlethdod technegol y Canllawiau Teithio Llesol, awgrymwyd y dylai lefel y Gymraeg fod o fewn cyrraedd pawb er mwyn annog rhagor o bobl i gyfeirio atynt os Cymraeg yw eu hail iaith neu os ydynt yn dysgu Cymraeg.

Roedd nifer bach o'r rheini a gyflwynodd sylwadau yn anghytuno ag amcanion o ran polisi ar y Gymraeg ac yn beirniadu'r defnydd o gronfeydd teithio llesol ar gyfer cyfieithu, a dywedwyd na ddylai arwyddion teithio llesol ddefnyddio enwau Cymraeg oherwydd y lle y mae'n ei gymryd ar baneli arwyddion bach.

**Cwestiwn B**: Eglurwch hefyd sut rydych yn credu y gall y canllawiau arfaethedig ar Deithio Llesol gael eu llunio neu eu newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

Heb ateb = 48
Cyflwynwyd sylw = 16

O blith y rheini a gyflwynodd sylwadau, ailadroddodd sawl un eu hymateb i gwestiwn A uchod, er enghraifft, dywedodd rhai y byddai mabwysiadu enwau lleoedd Cymraeg yn unig ar arwyddion teithio llesol yn gam cadarnhaol, ond dywedodd eraill fod arwyddion dwyieithog yn peri dryswch ac y dylent fod yn Saesneg yn unig.

Dywedodd un ymgynghorai nad yw'r penodau sy'n berthnasol i ymgysylltu ac ymgynghori yn cyfeirio'n benodol at y gofyniad i ymgyngoriadau cyhoeddus fod yn y ddwy iaith, a gofynnodd inni ychwanegu hynny.

| |
|---|
| **Cwestiwn C**: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i sôn amdanynt:<br><br>Daeth 38 o ymatebion i law |

Thema a oedd yn amlwg mewn sawl ymateb oedd bod y canllawiau, yn rhy aml, yn trin cerddwyr a beicwyr fel un grŵp. Teimlai nifer nad yw'r canllawiau'n mynd i'r afael yn ddigonol ag anghenion cerddwyr, er enghraifft, wrth gynllunio llwybrau cerdded, ni ddywedir bod effaith amodau gwyntog a'r angen i osgoi mannau lle mae problemau o ran llygredd aer yn ffactorau y dylid eu hystyried. Barn arall oedd bod y canllawiau'n gwahaniaethu'n anuniongyrchol yn erbyn pobl hŷn drwy beidio â darparu'n ddigonol ar gyfer eu hanghenion nhw fel cerddwyr.

Dadleuodd mwy nag un ymatebydd yn erbyn diffiniad cul o deithio llesol nad yw'n cynnwys hamdden, gan nodi sut y gall hyrwyddo cerdded a beicio fel gweithgareddau hamdden fod yn gam cyntaf at ennyn hyder pobl i roi cynnig ar deithio llesol ar gyfer teithiau lleol. Roedd rhai o'r ymatebion eraill yn dadlau o blaid yr angen i'r Canllawiau roi llawer mwy o bwyslais ar y nod o atal twf mewn traffig moduron.

Daeth sawl awgrym i law mewn perthynas â diweddaru'r offeryn archwilio llwybrau cerdded a'r offeryn archwilio llwybrau beicio, gan gynnwys eu gwneud yn llai goddrychol a darparu fersiwn wahanol ar gyfer ardaloedd trefol llai dwys. Roedd eraill am i'r offer gael eu symleiddio.

Dywedodd un ymatebydd nad yw'r canllawiau'n rhoi digon o bwyslais ar waith parhaus i gynnal a chadw seilwaith teithio llesol. Dywedodd un ymatebydd nad oes digon o waith dilynol yn cael ei wneud i wirio bod cynlluniau seilwaith teithio llesol yn cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd a bod gwersi'n cael eu dysgu os nad ydynt wedi gwneud hynny.

Teimlai rhai fod angen i'r Canllawiau gydnabod y llu o sgwteri trydan, a'r materion sy'n codi yn sgil hynny, p'un a ydynt yn cael eu hystyried yn ffordd llesol o deithio ai peidio. Cyfeiriodd eraill at y ffaith nad oes digon o gydnabyddiaeth o'r gofynion (lled, mannau troi, etc.) ar gyfer sgwteri symudedd, sy'n ddull teithio llesol dilys.

Cyfeiriwyd at broblemau lle nad yw'r system gynllunio'n mynd i'r afael yn ddigonol â gwelliannau teithio llesol ac yn eu galluogi. Awgrymodd un ymgynghorai fod angen i Lywodraeth Cymru fabwysiadu'r egwyddor o 'beidio â gwaethygu'r' ddarpariaeth teithio llesol.

Daeth sylwadau i law am y cyfleoedd sydd wedi dod i'r amlwg yn sgil y pandemig Covid-19 i gyflwyno atebion sy'n galluogi pobl i gadw pellter cymdeithasol, ond y gellid eu cadw'n barhaol er mwyn gwella teithio llesol.

Gofynnwyd i Lywodraeth Cymru wneud mwy i hyrwyddo teithio llesol drwy chwarae, gan gynnwys canllawiau ar fannau chwarae dros dro ar y stryd.

Gwnaeth mwy nag un ymgynghorai sylw i’r perwyl nad oedd y ddogfen o fewn cyrraedd i bawb a fyddai’n dymuno’i darllen, yn enwedig gan nad yw'r fformat pdf yn gydnaws â phob rhaglen darllen sgrin.

Defnyddiodd rhai ymatebwyr y lle hwn i gynnig cywiriadau teipograffyddol a sillafu a hyperddolenni coll. Roedd galwadau hefyd am grynodeb gweithredol a dogfen gryno ar gyfer cynulleidfaoedd nad ydynt yn dechnegol.

Clywodd yr ymgynghoriad oddi wrth nifer o unigolion, nifer o grwpiau yn y trydydd sector a nifer o grwpiau gwirfoddol a achubodd ar y cyfle i dynnu sylw at enghreifftiau penodol o arferion gwael lle mae anghenion cerddwyr a beicwyr wedi cael eu hanwybyddu neu eu peryglu.

Yn ogystal, cafwyd sylwadau manwl iawn, fesul pennod, am y canllawiau oddi wrth :

- Gyngor Sir Caerfyrddin
- Cyngor Sir Ceredigion
- Cycling UK
- Sustrans
- Dinas Feicio Caerdydd, Ymgyrch Feicio Caerdydd a Wheelwrights.

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i’r sefydliadau hyn am roi o’u hamser ac mae wedi ystyried eu sylwadau wrth fynd ati i olygu'r ddogfen yn derfynol.

**Camau Gweithredu**

Er hwylustod, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnwys rhestr o’r diwygiadau o sylwedd a wneir i fersiwn derfynol y Canllawiau er mwyn ei gwneud yn haws i randdeiliaid nodi’r gwahaniaethau rhwng y fersiwn honno a'r fersiwn a gyhoeddwyd at ddibenion ymgynghori.

**Atodiad A**

Cyflwynodd y sefydliadau a ganlyn ymatebion i'r ymgynghoriad:

| | | |
|---|---|---|
| Age Cymru | Pobl yn Gyntaf Cymru | Cymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol |
| Atkins Ltd | Beicio Bangor | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | Defnyddwyr Bysiau Caerdydd a'r Fro | Cyngor Caerdydd |
| Ymgyrch Feicio Caerdydd | Dinas Feicio Caerdydd | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Fforwm Feicio Sir Gaerfyrddin | Cyngor Sir Ceredigion | Cycling UK |
| DECIPHer, Prifysgol Cymru | Cyngor Sir y Fflint | Cyfeillion y Ddaear y Barri a'r Fro |
| Cŵn Tywys Cymru a'r RNIB | Sefydliad y Peirianwyr Sifil: Cymru | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Leonard Cheshire | Living Streets Cymru | Ymddiriedolaeth Treftadaeth Merthyr Tudful Cyf |
| Morgan Sindall Construction & Infrastructure Ltd | Cyfoeth Naturiol Cymru | Cyngor Castell-nedd Port Talbot |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Cyngor Tref Penarth | Chwarae Cymru |
| Cyngor Sir Powys | Public Health Wales | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Cerddwyr Cymru | Grŵp Ffocws yr Orsedd | Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru |
| Sustrans Cymru | Cyngor Abertawe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| Cyngor Bro Morgannwg | Llywodraeth Cymru | Wheelrights |

Cyflwynodd yr unigolion a ganlyn ymatebion i'r ymgynghoriad:

| | | |
|---|---|---|
| Stephen Aldridge | Martyn Fairlamb | Dafydd Griffiths |

| | | |
|---|---|---|
| David Hancock | Philip Hartwell | John Holiday |
| Keith Ingram | Mr J. Jones | Brett Kibble a’r Cyngh. Jill Kibble |
| Denise Mather | Gill Peterson-Flynn | Stephen Sims |
| Steve Waters | | |